

ARCHWILIAD	Arolygwyr / Inspectors: HYWEL WYN JONES BA (Hons), BTP, MRTPI RICHARD DUGGAN BSc (Hons), DipTP, MRTPI
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn	Swyddog Rhaglen / Programme Officer: SHARON ELLIS
Anglesey & Gwynedd Joint Local Development Plan	☎01286 679411 ✉ SwyddogRhaglen@gwynedd.gov.uk
EXAMINATION	Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH

Nodyn y Cyfarfod Cyn-wrandawriad
a gynhaliwyd yn
Siambwr Dafydd Orwig, Swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl,
Caernarfon
ddydd Mawrth 14 Mehefin, 2016 am 10.30am

1. Agor a Chyflwyniadau

- 1.1 Croesawyd pawb gan Hywel Wyn Jones, sef yr Arolygydd arweiniol, a gyflwynodd ei hun, yr Arolygydd cynorthwyol, sef Mr Richard Duggan, a Swyddog Rhaglen yr archwiliad, sef Ms Sharon Ellis. Esboniodd y byddai'r Arolygwyr yn cael eu cynorthwyo â'u tasg gan Swyddogion yr Arolygiaeth Gynllunio.

2. Diben y Cyfarfod Cyn-wrandawriad

- 2.1 Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyn-wrandawriad i esbonio a thrafod materion gweithdrefnol a gweinyddol yn ymwneud â rheoli'r Archwiliad. Esboniwyd bod amserlen ddrafft ar gyfer sesiynau'r gwrandawriad eisoes wedi cael ei chyhoeddi ar y wefan a'i dosbarthu i'r holl ddarpar gyfranogwyr.
- 2.2 Ni thrafodwyd cynnwys a rhinweddau'r Cynllun na'r sylwadau yn ystod y cyfarfod.

3. Rôl y Swyddog Rhaglen

- 3.1 Bydd y Swyddog Rhaglen yn gweithredu fel swyddog annibynnol ar gyfer yr Archwiliad, o dan gyfarwyddyd yr Arolygwyr. Amlinellir ei chyfrifoldebau yn y Nodiadau Canllaw i Sylwebyddion. Yn gryno, bydd yn cynorthwyo â materion gweithdrefnol a gweinyddol.
- 3.2 Dylai unrhyw faterion yr hoffai'r Cynghorau neu gyfranogwyr eu codi gyda'r Arolygwyr gael eu cyfeirio at y Swyddog Rhaglen. Mae ei manylion cyswllt wedi'u hatodi i'r Nodyn hwn. Bydd y Swyddog Rhaglen hefyd yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer sesiynau'r gwrandawriad, am dderbyn, cofnodi a dosbarthu dogfennau ac am gynnal Llyfrgell yr archwiliad.

4. Cwmpas yr Archwiliad a Rôl yr Arolygwyr

- 4.1 Esboniodd yr Arolygydd mai diben yr Archwiliad yw archwilio cadernid y Cynllun. Rôl yr Arolygwyr yw ystyried p'un a yw'r Cynllun yn bodloni gofynion Adrannau 63 a 64 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a rheoliadau cysylltiedig, a ph'un a yw'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru. Mae'r gofynion hyn yn perthyn i ddau grŵp cyffredinol: bodloni gofynion cyfreithiol a'r profion cadernid. Amlinellir y profion ym mharagraff 2.5.11 Polisi Cynllunio Cymru.
- 4.2 Man cychwyn yr Archwiliad yw'r dybiaeth fod y Cynghorau wedi cyflwyno Cynllun sy'n gadarn yn eu barn nhw. Man cychwyn yr Arolygwyr wrth archwilio cadernid y Cynllun yw'r sylwadau a gyflwynir. Bydd yr holl sylwadau a gyflwynir ar y camau adneuo a newidiadau â ffocws yn llywio eu hystyriaeth. Fodd bynnag, nid oes gofyniad i adrodd yn unigol ar bob pwynt a godir mewn gwrthwynebiad.
- 4.3 Mae awdurdod yr Arolygwyr i argymhell newidiadau i'r Cynllun wedi'i gyfyngu i'r rhai hynny sy'n angenrheidiol i wneud y Cynllun yn gadarn, yn hytrach na'r newidiadau hynny a fyddai'n gwella Cynllun cadarn. Bydd y sylwadau a gyflwynwyd yn briodol gan yr holl bartïon yn cael eu hystyried, ond dim ond i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r profion cadernid.

5. Cwestiynau Gweithdrefnol i'r Cynghorau

- 5.1 Cyflwynodd Ms Nia Davies, sef Rheolwr Polisi Cynllunio ar y Cyd y Cynghorau, swyddogion yr uned yn ogystal â swyddogion ac Aelodau Cabinet y ddau Gyngor cyn ateb yn gadarnhaol i'r cwestiynau gweithdrefnol a ofynnwyd gan yr Arolygydd trwy: gadarnhau bod y Cynllun wedi cael ei baratoi yn unol â'r gweithdrefnau statudol o dan Adran 64(5)(a) Deddf 2004 a rheoliadau cysylltiedig; ei fod yn cydymffurfio â'r Cytundeb Cyflenwi a'r Cynllun Cynnwys y Gymuned; a'i fod wedi'i ategu gan Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
- 5.2 Cadarnhaodd Ms Davies hefyd mai'r man cychwyn ar gyfer yr archwiliad yw fersiwn Adneuo'r Cynllun fel y'i diwygiwyd gan y ddogfen Atodlen Newidiadau â Ffocws a Newidiadau Bach (Chwefror 2016). Nodwyd bod y Newidiadau â Ffocws wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ac wedi cael eu hasesu mewn atodiad i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

6. Sylwadau ar y CDLI ar y Cyd

- 6.1 Mae'r Cynghorau wedi nodi bod oddeutu 1,697 o sylwadau wedi'u derbyn ar y CDLI ar y Cyd Adneuo gan 458 o sefydliadau ac unigolion. Derbyniwyd oddeutu 130 o sylwadau, gan 24 ymatebwr, mewn ymateb i'r Newidiadau â Ffocws.

7. Dulliau o Ystyried Sylwadau

- 7.1 Ymdrinnir â'r rhan fwyaf o'r sylwadau ar sail y cyflwyniadau ysgrifenedig ac ymdrinnir â'r gweddill ar lafar yn sesiynau'r gwrandawriad. Rhoddir yr un pwys i'r ddau ddull yn yr Archwiliad. Lle na fynegwyd blaenoriaeth, tybir y bydd sylw'n cael ei ystyried trwy gyfrwng y cyflwyniad ysgrifenedig. Ni chaniateir cyflwyniadau ychwanegol i gefnogi'r cyfryw sylwadau ysgrifenedig, oni bai bod yr

Arolygwyr yn gofyn am wybodaeth bellach. Yn yr achos hwnnw, gwahoddir y Cynghorau i gyflwyno sylw neu eglurhad ychwanegol.

- 7.2 Dylai unrhyw gynrychiolydd a ddymunodd cael ei glywed yn wreiddiol ond sy'n penderfynu dibynnu ar ei gyflwyniadau ysgrifenedig wedi hynny, roi gwybod i'r Swyddog Rhaglen cyn gynted â phosibl. Dim ond y partion hynny sy'n ceisio newidiadau penodol i'r Cynllun a gaiff gymryd rhan yn sesiynau gwrandawriad yr Archwiliad. Ni chaiff cefnogwyr y Cynllun, ei bolisiau na'i ddyraniadau gymryd rhan yn sesiynau'r gwrandawriad.

8. Y Weithdrefn yn Sesiynau'r Gwrandawriad

- 8.1 Bydd y sesiynau fel arfer ar ffurf trafodaeth a arweinir gan Arolygydd a byddant wedi'u seilio ar y cwestiynau a'r materion a amlinellwyd yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Cyhoeddir yr agendâu a'r rhaglen ddrafft y gwrandawriadau ar yr un pryd â'r Nodyn hwn, ond gallai'r cynnwys newid yn ddiweddarach. Os bydd hyn yn digwydd, anfonir fersiwn ddiwygiedig at y cyfranogwyr cyn gynted â phosibl. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cyhoeddi ar y wefan hefyd. Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd angen ceisio gwybodaeth ychwanegol cyn sesiynau gwrandawriad penodol, a bydd hyn yn cael ei gofnodi ar y wefan hefyd.
- 8.2 Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd yn esbonio sut y bydd y gwrandawriadau'n cael eu cynnal. Fe'u cynhelir yn anffurfiol, ond byddant wedi'u strwythuro mewn modd sy'n galluogi'r Arolygwyr i gasglu'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddod i gasgliad ar y materion sy'n cael eu harchwilio.
- 8.3 O dderbyn nad yw pwynt da yn gwella o'i ailadrodd droeon, byddai'n ddefnyddiol pe byddai sylwebyddion sydd o'r un farn yn ystyried penodi llefarydd i weithredu ar eu rhan. P'un bynnag, er mwyn cynnal yr archwiliad yn effeithlon, bydd yr Arolygwyr yn ymyrryd os bydd yr un pwynt yn cael ei ailadrodd neu os bydd materion yn cael eu codi sy'n gwyro o hanfod sylw gwreiddiol cyfranogwr.
- 8.4 Er y dylid cyfyngu gymaint â phosibl ar unrhyw newidiadau pellach i'r Cynllun, fe allai ddod i'r amlwg yn ystod gwrandawriad bod angen gwneud newidiadau i'r Cynllun i oresgyn diffyg a nodwyd. Dylai unrhyw newidiadau a awgrymir gan y Cynghorau yn ystod yr Archwiliad gael eu cofnodi'n fanwl mewn rhestr ar gyfer pob sesiwn gwrandawriad, ac mewn rhestr o unrhyw newidiadau awgrymedig eraill nad ydynt o reidrwydd yn gysylltiedig ag unrhyw sesiwn. Mae'r Cynghorau eisoes wedi nodi eu bod eisiau awgrymu rhai newidiadau mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd ynglŷn â'r Newidiadau â Ffocws. Dylai'r rhain gael eu cyflwyno fel yr atodlen gyntaf o newidiadau o'r fath (a adwaenir fel Materion sy'n Arwain at Newidiadau).

9. Rhaglen yr Archwiliad

- 9.1 Ar hyn o bryd, mae'r sesiynau gwrandawriad wedi'u trefnu i ddechrau am 9.30am ar 6 Medi 2016 yn Siambr Cyngor Dinas Bangor. Yn ogystal â Bangor, bydd sesiynau'n cael eu cynnal yng Nghaernarfon a Llangefni hefyd. Mae'r manylion wedi'u hamlinellu yn y rhaglen ddrafft, ond dylid gwirio'r wefan yn rheolaidd

oherwydd fe allai'r rhaglen newid. Bydd y Swyddog Rhaglen yn rhoi gwybod i'r cyfranogwyr am unrhyw newidiadau i'r sesiynau hynny y'u gwahoddwyd iddynt.

- 9.2 Mae'r rhaglen a'r rhestr cyfranogwyr ym mhob sesiwn wedi cael eu llunio'n ofalus er mwyn sicrhau nad yw'r un o'r sesiynau'n rhy fawr, ar yr un pryd â sicrhau bod pob sylwebydd sydd â hawl i gael ei glywed yn cael ei wahodd i sesiwn sy'n fwyaf perthnasol i'w wrthwynebiadau. Mae'r materion i'w trafod yn bellgyrhaeddol ac yn adlewyrchu'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd i'r Cynllun yn ogystal â materion eraill y mae'r Arolygwyr o'r farn bod angen eu harchwilio. Wrth i'r Arolygwyr barhau i archwilio'r Cynllun, y sylfaen dystiolaeth a'r sylwadau, mae'n bosibl y gallai materion eraill godi ac fe allai fod angen addasu'r rhaglen yn unol â hynny.
- 9.3 Cadarnhaodd Ms Davies fod gan swyddogion bwerau dirprwyedig i gynrychioli'r Cynghorau yn y sesiynau gwrandawriad ac y byddai ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r Aelodau Cabinet perthnasol i gytuno ar faterion eraill penodol heb fod angen ceisio awdurdod neu gymeradwyaeth ffurfiol gan y Cynghorau. Pwysleisiodd yr Arolygydd bwysigrwydd sicrhau, cyn belled â phosibl, fod y rhai hynny sy'n cynrychioli'r Cynghorau ym mhob sesiwn gwrandawriad yn gallu mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a allai gael eu hamlygu yn effeithiol er mwyn datrys materion yn y sesiwn, yn hytrach na cheisio gohirio materion i ganiatáu trafod gydag unigolion y tu allan i'r sesiwn. Byddai hyn yn hwyluso datrys unrhyw broblemau'n gadarnhaol ac yn osgoi oedi diangen yn rhaglen yr archwiliad.

10. Cyflwyno Gwybodaeth Bellach

- 10.1 Caiff y rhai hynny a wahoddir i sesiwn gwrandawriad gyflwyno datganiad cyn y sesiwn, a ddylai ymdrin yn unig â'r materion hynny a nodwyd yn agenda'r sesiwn sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'u sylwadau a gyflwynwyd yn briodol. Os yw datganiad yn cynnwys materion na chodwyd yn y sylwadau gwreiddiol, fe allai gael ei ddychwelyd. Mae'r Nodiadau Canllaw yn rhoi cyngor ychwanegol ar gyflwyno'r datganiadau hyn. Mewn achosion lle yr ystyrir bod y sylwadau gwreiddiol yn ymdrin yn llawn â'r materion a godwyd yn yr agenda, nid oes angen cyflwyno datganiad ychwanegol, er y byddai'n ddefnyddiol pe byddai y Swyddog Rhaglen yn cael gwybod hynny cyn gynted ac y bo modd.
- 10.2 Er mwyn galluogi'r Arolygwyr a'r holl gyfranogwyr eraill i ddeall achos pob cyfranogwr o flaen llaw, mae'n bwysig parchu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau. Dylid cyflwyno pob datganiad erbyn 16 Awst 2016. Bydd y Swyddog Rhaglen yn dosbarthu'r holl ddatganiadau a dderbyniwyd cyn gynted â phosibl ar ôl y dyddiad hwn.
- 10.3 Mewn rhai achosion, gall Datganiad Tir Cyffredin a gyflwynir gan y Cynghorau a rhai cyfranogwyr gynorthwyo i amlygu materion y mae'r partïon yn cytuno arnynt, gan felly alluogi'r materion hynny y ceir anghydfod yn eu cylch i gael eu hamlygu'n glir a'u trafod mewn gwrandawriad. Anogir yr holl bartïon i ystyried y posibilrwydd o gyflwyno'r cyfryw ddatganiadau yn gynnar.
- 10.4 Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael ym mhob sesiwn gwrandawriad.

11. Argaeledd Gwybodaeth

- 11.1 Bydd y Swyddog Rhaglen yn cynnal llyfrgell yr archwiliad sy'n cynnwys Dogfennau Cyflwyno ac Ategol a Dogfennau'r Archwiliad. Mae'r rhain yn cynnwys dogfennau polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, papurau cefndir ac unrhyw ddogfennau eraill y mae'n debygol y cyfeirir atynt, gan gynnwys yr holl sylwadau a datganiadau. Mae'r rhestr Dogfennau ar gael ar wefan y Cynghorau.
- 11.2 Dylai unrhyw ddogfennau y mae cyfranogwr mewn gwrandawriad yn bwriadu cyfeirio atynt gael eu cynnwys yn y rhestr Dogfennau Ategol yn llyfrgell yr archwiliad. Os nad yw'r llyfrgell yn cynnwys y cyfryw ddogfen ar hyn o bryd, dylai'r cyfranogwr ddarparu 3 chopi ohoni i'r Swyddog Rhaglen.
- 11.3 Delir y llyfrgell yn Swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd y Jel, Caernarfon ar hyn o bryd. Cadarnhaodd yr Arolygydd y bydd y llyfrgell yn symud yn ystod y sesiynau gwrandawriad i Swyddfa'r Rhaglen ym mhob un o'r lleoliadau. Dylai unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r llyfrgell gael eu cyfeirio at y Swyddog Rhaglen. Gellir cyrchu'r llyfrgell yn electronig trwy dudalen we'r archwiliad. Gan fod angen i'r wefan gael ei diweddarau'n ddi-oed er mwyn i'r Archwiliad gael ei gynnal yn effeithlon, rhoddwyd gwybod i'r Cynghorau fod angen iddynt sicrhau bod ganddynt drefniadau mewnol cadarn ar waith i hwyluso hyn.
- 11.4 Bydd Nodyn y Cyfarfod Cyn-wrandawriad yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Archwiliad a bydd cyfranogwyr yn cael gwybod yn unol â hynny. Bydd y Swyddog Rhaglen yn anfon copïau caled o'r Nodyn ar gais.

12. Trefniadau ar gyfer ymweliadau safle

- 12.1 Bydd yr Arolygwyr yn mynd ar daith o amgylch y Sir i ymgyfarwyddo â'r ardal, ac maen nhw eisoes wedi dechrau ymweld â mannau y cyfeiriwyd atynt yn y sylwadau yn annibynnol. Lle nad yw safle'n weladwy o'r briffordd neu lecyn manteisiol cyhoeddus arall, fe allai fod angen i'r Arolygwyr gael eu tywys i'r safle gan gynrychiolydd y tirberchennog a'r Cynghorau. Dylid nodi na fydd cyfle i wneud unrhyw sylwadau i'r Arolygwyr yn ystod ymweliad tywysedig.

13. Cau'r Archwiliad

- 13.1 Bydd yr Archwiliad yn aros ar agor hyd nes y cyflwynir adroddiad yr Arolygwyr i'r Cynghorau. Fodd bynnag, ni dderbynnir unrhyw sylwadau na thystiolaeth ychwanegol ar ôl i'r sesiynau gwrandawriad orffen. Bydd yr Archwiliad yn aros ar agor i alluogi'r Arolygwyr i ofyn am wybodaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen arnynt.
- 13.2 Mae unrhyw ddeunydd hwyr neu ddeunydd na ofynnwyd amdano'n debygol o gael ei ddychwelyd.

14. Cyflwyno Adroddiad yr Arolygydd i'r Cynghorau

- 14.1 Ar ôl i'r Archwiliad gau, bydd yr Arolygwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gydag argymhellion cyfrwymol i'r Cynghorau. Bydd y dyddiad cyflwyno'n dibynnu ar

gynnwys, maint a hyd yr Archwiliad, a bydd y dyddiad tebygol yn cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y sesiynau gwrandawriad.

15. Ymateb y Cynghorau i Nodyn Rhagarweiniol yr Arolygwyr

- 15.1 Tua phythefnos cyn y cyfarfod, cyflwynodd y Cynghorau ymateb i Nodyn Rhagarweiniol yr Arolygwyr i'r Cynghorau (sydd ill dau ar gael fel dogfennau archwiliad ar y wefan). Rhoddodd yr Arolygwyr eu hymateb cychwynol i hyn yn y cyfarfod.
- 15.2 O ran yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, rhoddwyd gwybod i'r Cynghorau fod yr Arolygwyr o'r farn bod angen gwneud mwy o waith mewn perthynas â rhai polisiâu manwl a allai fod â goblygiadau sylweddol o ran cynaliadwyedd. Yn ogystal, amlygodd yr Arolygydd rai anghysondebau o ran rhifau'r polisiâu a nodwyd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r rhai hynny a nodwyd yn y CDLI ar y Cyd Adneuo. Dylai ymateb ysgrifenedig y Cynghorau i'r materion hyn gael ei gyflwyno i Swyddog y Rhaglen erbyn 28 Mehefin.
- 15.3 Gan nodi cynnwys llythyr gan y Cynghorau dyddiedig 10 Mehefin 2016, ceisiodd yr Arolygwyr eglurhad ynghylch dyraniad posibl safle parhaol i sipsiwn a theithwyr ar Ynys Môn a holi ynghylch yr amserlen awgrymedig ar gyfer amlygu safleoedd aros dros dro. Dywedodd Ms Davies fod y Cyngor ar fin paratoi atodiad i Bapur Pwnc 18 a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion hyn. Dywedodd Mr Dylan Williams, Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddiol a Datblygu Economaidd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, wrth yr Arolygydd fod Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor yn ymwneud â symud hyn yn ei flaen, ond gofynnodd i'r sesiwn ar gyfer trafod y pwnc hwn gael ei symud yn agosach at ddiwedd y sesiynau gwrandawriad. Mynegodd yr Arolygydd ei bryderon ynghylch y potensial ar gyfer oedi'r sesiwn hon, y gellid ei gyfiawnhau dim ond os oedd rhagolygon da y byddai'r gwaith ychwanegol a fyddai'n cael ei wneud yn arwain at ganlyniad cadarnhaol. Gofynnwyd i'r Cynghorau gyflwyno nodyn erbyn 17 Mehefin yn amlinellu'n fanwl y gwaith paratoi sydd eisoes wedi'i gwblhau, y broses ymgynghori a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cwblhau'r gwaith, ynghyd â sylw ynghylch y rhesymau pam mae'r Cynghorau'n ystyried y bydd yr ymarfer hwn yn arwain at ganlyniad llwyddiannus er gwaethaf methiant mentrau blaenorol. Yna, bydd yr Arolygydd yn penderfynu p'un ai symud y sesiwn yn agosach at ddiwedd y sesiynau gwrandawriad.
- 15.4 Eglurwyd y gwaith ychwanegol a gynigiwyd ar ynni adnewyddadwy a beth fyddai'r goblygiadau i'r Cynllun. Dywedwyd hefyd y byddai'r adroddiad y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi'n fuan yn amlygu unrhyw safle(oedd) ychwanegol y byddai eu hangen ac na fyddai'r gwaith ychwanegol yn oedi'r rhaglen.
- 15.5 Dywedwyd wrth y Cynghorau i baratoi, cyn y gwrandawriadau, safbwynt gwahanol y dymunent ei gyflwyno rhag ofn na ellid cynnal eu safbwynt datganedig ar bwynt penodol, er enghraifft trwy awgrymu newid i'r Cynllun.
- 15.6 Tynnodd yr Arolygydd sylw at y terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau, sef 16 Awst, a mynegodd bryder ynghylch amserlen y Cynghorau ar gyfer cyflwyno'r gwaith ychwanegol a ph'un a ellid ei byrhau. Dywedodd Ms Davies fod y graddfeydd amser a gynigiwyd yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael o ran amser swyddogion, y cyfnod gwyliau a'r posibilrwydd o golli amser o ganlyniad i

salwch yn y tîm. Yn sgil pryderon yr Arolygwyr, cytunwyd y byddai'r Cynghorau'n cyflwyno amserlen ddiwygiedig a fyddai'n cynnig terfynau amser byrrach lle y bo'n bosibl. [Dylai'r amserlen hon gael ei darparu erbyn 28 Mehefin]

- 15.7 Gofynnodd y Cyngor p'un a oedd yn bosibl rhannu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau fesul cam, gan gyflwyno'r datganiadau ar gyfer wythnosau 1 a 2 erbyn 16 Awst a'r datganiadau ar gyfer wythnosau 3 a 4 erbyn 26 Awst. Dywedodd yr Arolygydd na ellid caniatáu hyn oherwydd y byddai newid y terfyn amser yn achosi anhawster i bawb sy'n ymwneud â'r broses, yn enwedig gwaith paratoi'r rhai hynny a fyddai'n ymwneud â'r broses drwy gydol y 4 wythnos o wrandawiadau. Pe byddai'n angenrheidiol, ac yn cynorthwyo â'r pryderon ynglŷn â phwysau eu llwyth gwaith, byddai'r Cynghorau'n cael caniatâd i gyflwyno papurau atodiad ar gyfer un neu fwy o bynciau penodol i'w trafod yn y sesiynau yn wythnosau 3 a 4 cyn belled â'u bod yn cael eu cyflwyno o leiaf 10 niwrnod gwaith cyn y sesiwn berthnasol. Os yw'r Cynghorau'n rhagweld y bydd hyn yn angenrheidiol, dylent esbonio eu bwriadau i'r Swyddog Rhaglen ymhell cyn y terfyn amser ar gyfer datganiadau, a sicrhau eu bod yn darparu datganiad ar gyfer y sesiwn honno erbyn 16 Awst.
- 15.8 Atgoffodd yr Arolygydd y Cynghorau i sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli ym mhob sesiwn gwrandawriad gan dîm sy'n cynnwys unrhyw swyddogion neu ymgynghorwyr o'r tu allan i dîm paratoi'r Cynllun a allai fod wedi gwneud cyfraniad arbenigol arwyddocaol at y pynciau sydd i'w trafod.

16. Cwestiynau

- 16.1 Rhoddwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau a godwyd gan yr unigolion a enwyd:

Mr T Conway

O ran y prawf 'Cadernid', cadarnhaodd yr Arolygydd fod y ffurflenni sylwadau'n cyfeirio at y prawf, ond cydnabu ei bod yn anodd i'r 'unigolyn lleyg' asesu'r mater hwn. Fodd bynnag, byddai unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn cael eu hasesu gan yr Arolygwyr yn unol â'r prawf cadernid.

Cadarnhaodd yr Arolygydd na fyddai'r mater a godwyd mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwn, ond y byddai cyfle i wneud hynny yn y sesiwn gwrandawriad briodol.

Ms Mairede Thomas

O ran cyhoeddi profion cadernid newydd yn rhifyn diweddaraf Polisi Cynllunio Cymru a'r goblygiadau i'r CDLI ar y Cyd, cyfeiriodd yr Arolygydd at baragraff 3.7 y 'Nodiadau Canllaw' a chadarnhaodd na fyddai unrhyw wahaniaethau â'r profion cadernid blaenorol yn gwanhau dylanwad y sylwadau a dderbyniwyd.

O ran mynediad at ddogfennau llyfrgell yr archwiliad, cadarnhaodd yr Arolygydd ei bod yn hollbwysig bod pawb, gan gynnwys y rhai hynny y mae arnynt angen copïau caled, yn cael y cyfle i ymgyswddo â'r holl wybodaeth sydd ar gael. Mae'r llyfrgell ym mhrif swyddfeydd Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon ar hyn o bryd, ond byddai ar gael yn lleoliadau'r gwrandawriad. Gan y bydd y wefan yn cael ei diweddarau'n gyflym ar brydiau, nid yw'n ymarferol rhoi gwybod i

gynrychiolwyr yn unigol am bob newid. Fodd bynnag, rhoddir gwybod yn unigol am newidiadau sy'n arbennig o arwyddocaol i gynrychiolwyr penodol. Mewn achosion eraill, dylai cyfranogwyr ymweld â'r wefan yn rheolaidd lle y gwneir pob ymdrech i sicrhau y bydd modd adnabod yr ychwanegiadau diweddaraf yn rhwydd.

Byddai unrhyw newidiadau i'r Cynllun yn ystod yr Archwiliad yn cael eu hystyried yn 'Faterion sy'n Arwain at Newidiadau' y byddai angen iddynt fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai unrhyw sylwadau a gyflwynir gan bartïon â diddordeb ar y cam hwnnw'n cael eu hasesu gan yr Arolygwyr.

Mr Owain Wyn

Cadarnhaodd yr Arolygydd fod y rhaglen ddrafft yn gallu newid yn ystod y sesiynau. Byddai ceisiadau i newid yr amserlen ddrafft yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, mae'n anodd diwygio'r rhaglen os nad yw unigolyn yn gallu mynychu gan y byddai hyn yn cael effaith gynyddol ar fynychwyr eraill.

Cyfeiriodd yr Arolygydd at baragraff 8.7 y 'Nodiadau Canllaw' sy'n ymdrin â Datganiadau Tir Cyffredin. Mae cyflwyno'r datganiadau hyn yn gallu arbed amser a byrhau hyd datganiadau.

O ran yr ymholiad yn ymwneud â safleoedd amgen, cyfeiriodd yr Arolygydd at baragraff 5.6 y 'Nodiadau Canllaw'. Eglurodd yr Arolygydd hefyd pe ganfyddir bod y safleoedd tai dyranedig a gyflwynwyd gan y Cyngor yn briodol i ateb yr angen nad oes gofyniad i'r Arolygwyr ystyried teilyngdod safleoedd amgen. Fodd bynnag, os oes angen dyrannu safleoedd ychwanegol, y Cyngor sydd i gyflwyno'r rhain.

Ms Sarah Price (Horizon)

Cadarnhaodd yr Arolygydd y bydd pwnc Wylfa Newydd yn cael ei godi mewn sawl sesiwn ond fe allai'r trafodaethau hyn cael eu cwtdogi i ganiatáu trafodaeth lawnach a manylach yn y sesiwn benodol ar Wylfa. Cadarnhaodd yr Arolygydd hefyd ei fod o'r farn y byddai'r sesiwn hanner diwrnod arfaethedig yn caniatáu digon o amser i drafod y materion angenrheidiol a godwyd yn yr agenda, er y gellir gwneud trefniadau eraill os bydd angen.

Mr Paul Green, Cyngor Tref Biwmares

Cadarnhaodd yr Arolygydd y bydd lle ar gael fel arfer ar gyfer un sedd fesul cyfranogwr ym mhob sesiwn, ond y byddai angen lleoedd ychwanegol ar dîm y Cyngor yn anorfod. Os bydd digon o le, gellid caniatáu ail sedd i bobl eraill wrth y bwrdd. Fel arall, bydd lle ar gael i gydweithiwr eistedd y tu ôl i gyfranogwr yn ystod y sesiynau.

Mr Tom Brooks

Cyfeiriodd yr Arolygydd at y 'Nodiadau Canllaw i Sylwebyddion' sy'n rhoi cyngor ar gyflwyno datganiadau ychwanegol a thystiolaeth newydd. Gallai tystiolaeth newydd gael ei chyflwyno os bu newid mewn amgylchiadau yn unig.

O ran unrhyw gynrychiolydd sy'n dymuno cael ei glywed ond nad yw wedi cael ei wahodd i unrhyw sesiwn gwrandawriad, ac y mae'n credu ei fod yn dod o fewn y categori sylwebydd sydd â hawl i gael eu clywed, dylai gysylltu â'r Swyddog Rhaglen cyn gynted â phosibl.

Yn yr un modd, dylai unrhyw gynrychiolydd sy'n dymuno mynychu mwy o wrandawiadau na'r sesiwn/sesiynau y'i gwahoddwyd iddi/iddynt godi hyn gyda'r Swyddog Rhaglen. Dylid nodi bod y sylwebyddion hynny y mae eu sylwadau'n ymwneud â safle/safleoedd penodol wedi cael eu gwahodd i sesiynau sy'n ymdrin â'r safleoedd hynny yn unig. Disgwylir y bydd y cyfryw sesiynau'n ymdrin â rhai o'r pynciau a drafodir mewn sesiynau eraill i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r safleoedd sy'n cael eu hystyried.

O ystyried bod gwrthwynebwyr safleoedd amgen yn cefnogi'r Cynllun i bob pwrpas, nid oes gan y cyfryw gynrychiolwyr yr hawl i gael eu clywed. Yn yr amgylchiadau hyn, gellir disgwyl i'r Cynghorau gyflwyno'r achos yn erbyn dyrannu'r cyfryw safleoedd. Caiff y Cynghorau ddewis cynnwys yn eu hachos unrhyw faterion a godwyd gan y sylwebyddion hynny sy'n cefnogi eu safbwynt. Er y gallai cynigwyr safleoedd gael eu cynrychioli gan weithwyr proffesiynol mewn rhai achosion, bydd yr Arolygwyr yn canolbwyntio ar rinweddau pob achos yn hytrach na'r ffordd y'u cyflwynir. Mae'r 'Nodiadau Canllaw' yn rhoi mwy o gyngor ar y mater hwn.

Y Cynghorydd Wyn Williams

Cadarnhaodd yr Arolygydd fod gan unrhyw un yr hawl i ddod i sesiwn gwrandawriad gan ei bod yn sesiwn gyhoeddus, ond nad oes gan bawb yr hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth. Cydnabu'r Arolygydd fod Aelodau wedi cael eu hethol yn ddemocrataidd gan eu cymuned, ond nid oes ganddynt fwy o hawl i gymryd rhan yn y sesiynau nag unrhyw un arall.

Mr Hugh Richards

Cadarnhaodd yr Arolygydd nad oedd Rhaglen yr Archwiliad yn cynnig cynnal dwy sesiwn ar yr un pryd.

17. Diwedd y Cyfarfod

17.1 Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm.

ATODIAD A

MANYLION CYSWLLT Y SWYDDOG RHAGLEN:

Swyddog Rhaglen: Sharon Ellis

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth: Swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH

Rhif ffôn: 01286 679411

E-bost: SwyddogRhaglen@gwynedd.llyw.cymru

Gwefan: www.gwynedd.llyw.cymru/archwiliadannibynnol
www.ynysmon.gov.uk/cdll